# Ymateb Llywodraeth Cymru i: Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb P-04-628 Gwella mynediad at addysg a gwasanaethau mewn Iaith Arwyddion Prydain – Tachwedd 2018

**Caiff ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad eu nodi isod:**

### Argymhelliad 1

**Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi Iaith Arwyddion Prydain fel iaith leiafrifol, ac annog awdurdodau lleol i'w chydnabod fel iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar wrth ddarparu gwasanaethau addysg a chymorth.**

**Ymateb: Derbyn**
Cafodd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ei chydnabod fel iaith yn ei rhinwedd ei hun gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2004. Ers hynny, rydym wedi cefnogi hyfforddiant i gynyddu nifer y dehonglwyr cymwysedig yng Nghymru, ac rydym wedi ceisio sicrhau bod polisïau a rhaglenni ledled Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu hygyrch. Rydym yn cydnabod bod aelodau'r gymuned F/fyddar yn wynebu nifer o drafferthion yng Nghymru ar hyn o bryd mewn cysylltiad ag Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys diffyg dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru, a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ystyried llunio siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer plant B/byddar i bobl ifanc a'u teuluoedd fel rhan o'r broses. Rhagwelwn y byddai siarter o'r fath yn sail ar gyfer amrywiaeth o waith a gaiff ei wneud gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill i ddeall y cymorth presennol sydd ar gael i blant B/byddar a'r rhai sydd â nam ar y clyw a'r canllawiau arfer da a'r safonau sy'n cael eu llunio ar blant B/byddar neu drwm eu clyw i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddai angen i'r siarter fod yn ddigon eang a hyblyg i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau a datblygiadau yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

### Argymhelliad 2

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau, gan gynnwys addysg, i blant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd. Credwn y byddai siarter o'r fath, wedi'i hategu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio cefnogaeth a darparu adnoddau ar ei chyfer o fewn fframwaith a gydnabyddir yn genedlaethol, a helpu i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth ledled Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**
Fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 1, cafodd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ei chydnabod fel iaith yn ei rhinwedd ei hun gan Lywodraeth Cymru yn 2004. Ers hynny, rydym wedi cefnogi hyfforddiant i gynyddu nifer y dehonglwyr cymwysedig yng Nghymru, a gweithio, ar yr un pryd i ymgorffori cydnabyddiaeth o ohebiaeth hygyrch wrth ddatblygu a darparu polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod aelodau'r gymuned F/fyddar yn wynebu nifer o drafferthion yng Nghymru o hyd mewn cysylltiad ag Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys diffyg dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru, a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ystyried llunio siarter genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer plant B/byddar, pobl ifanc a'u teuluoedd fel rhan o'r broses hon. Disgwyliwn i'r siarter hon fod yn sail ar gyfer

amrywiaeth o waith y mae Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn ei wneud, i ddeall y darpariaethau presennol o gefnogaeth i blant B/byddar a phlant â nam ar eu clyw a'r canllawiau arfer da a safonau sy'n cael eu llunio ynghylch colli clyw i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddem yn disgwyl i'r siarter fod yn ddigon eang a hyblyg i adlewyrchu datblygiadau yn y dyfodol a newid mewn amgylchiadau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

## Argymhelliad 3

**Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod Iaith Arwyddion Prydain yn cael ei hystyried yn weithredol yn y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru, yn benodol fel rhan o Brofiad Dysgu Llythrennedd, Ieithoedd a Chyfathrebu. Felly, rydym yn argymell bod y cyfle i ddysgu Iaith Arwyddion Prydain ar gael i blant ar bob lefel addysg. Fel rhan o hyn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ystyried creu TGAU iaith arwyddion fel iaith gyntaf gyda Cymwysterau Cymru.**

### Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd y cwricwlwm newydd i Gymru yn caniatáu i ysgolion ddatblygu cwricwla sy'n diwallu anghenion eu disgyblion ac yn adlewyrchu eu diddordebau. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu gan grŵp o ysgolion arloesi, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gref o ysgolion arbennig i gynnwys Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Defnyddir yr ymadrodd ieithoedd rhyngwladol er mwyn cwmpasu amrywiaeth eang o ieithoedd, gan gynnwys ieithoedd modern, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd clasurol. Yr ysgol ei hun fydd yn penderfynu pa ieithoedd rhyngwladol a gaiff eu dysgu.

Cafodd Iaith Arwyddion Prydain ei chydnabod fel iaith yn ei rhinwedd ei hun gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2004. Mae nifer o gymwysterau BSL lefelau 1 a 2 wedi'u cymeradwyo i'w dysgu ar gyfnod allweddol 4, ac ôl-16 yng Nghymru, a llawer ohonynt yn gyfwerth â TGAU ac y gallai ysgolion a cholegau benderfynu eu cynnwys yn y cynnig cwricwlwm cyfnod allweddol 4 ac ôl 16 i ddysgwyr. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod Iaith Arwyddion Prydain ar gael i blant, sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd angen y cymorth hwnnw.  Mae llawer o awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach yn darparu hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys darparu cyrsiau Iaith Arwyddion Prydain i oedolion.

O ran datblygu cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain, cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru, fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, yw datblygu cymwysterau ar gyfer addysgu yng Nghymru. Yn 2017, ysgrifennodd y Prif Weinidog at Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cymhwyster TGAU Iaith Arwyddion Prydain. Mae copi o'r llythyr a'r ymateb gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru i'w cael ar wefan Cymwysterau Cymru yn:

http://qualificationswales.org/media/2450/first-minister-s-letter-regarding-british-sign-language-bsl.pdf.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

## Argymhelliad 4

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer gwasanaethau arbenigol**

**AAA, gan ganolbwyntio'n benodol ar athrawon sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o gynaliadwyedd tymor hwy y gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, rydym yn cefnogi'r syniad o gyflwyno cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain safonol gofynnol ar gyfer cynorthwywyr dysgu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc byddar.**

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd adroddiad ar gasgliad data, y gwnaethom ei gomisiynu gan Uned Ddata Cymru, yn darparu gwybodaeth am weithlu arbenigol yr awdurdod lleol. Mae nam ar y clyw yn un o'r arbenigeddau a gaiff ei gynnwys yn y casgliad data a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol wrth gynllunio eu gweithlu a nodi anghenion hyfforddi.

Rydym yn llwyr ymrwymedig i gefnogi hyfforddi athrawon y byddar. Eleni, rydym wedi dyrannu cyfanswm o £289,000 dros dair blynedd i gefnogi hyfforddiant proffesiynol gweithlu synhwyrau'r awdurdodau lleol. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys hyfforddiant mewn Iaith Arwyddion Prydain ar amrywiol lefelau, a hyfforddiant ôl-radd ar gyfer chwech o athrawon y byddar.

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynwyd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a fydd yn creu gwell system i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai â nam ar eu clyw. Mae tegwch a chydraddoldeb yn ganolog i'r Ddeddf a'i nod yw sicrhau y caiff pob dysgwr ei gefnogi i gyrraedd ei lawn botensial. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn rhoi anghenion, barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth galon y broses gynllunio. Disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Medi 2020 a bydd y cyfnod gweithredu fesul cam yn parhau tan 2023. Tan hynny, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnynt gan Ddeddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer AAA Cymru.

Yn ystod tymor yr hydref 2018, byddwn yn ymgynghori ar safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu. Disgwyliwn i'r safonau hyn fod yn barod i'w defnyddio mewn ysgolion o fis Medi 2019. Nid yw'r safonau drafft yn cynnwys cymwysterau penodol fel iaith Arwyddion Prydain, gan y byddai gwneud hynny yn anymarferol ac, o bosibl, yn annheg. Fodd bynnag, dysgu proffesiynol gydol gyrfa yw un o bum dimensiwn y safonau hyn ac mae'n berthnasol i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae cyfrifoldeb penaethiaid i hwyluso hyn wedi'i gynnwys o fewn dimensiwn dysgu proffesiynol gydol-gyrfa o'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol. Cyfeirir, hefyd, at ddiwallu anghenion pob dysgwr yn y gwerthoedd a'r tueddiadau cyffredinol a ddaw gyda'r safonau. Ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu a'r Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch, maent yn cynnwys ymrwymiad i gyflawniad pob dysgwr ac anghenion a hawliau dysgwyr fod yn ganolog i agwedd y Cynorthwywyr Dysgu a'r Cynorthwywyr Uwch tuag at eu rôl.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.